amgueddfa.cymru

AMGUEDDFA CYMRU

museum.wales

# Gwirfoddolwyr Archwilio Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

**Pwrpas y rôl:**
Dewch â'r Amgueddfa'n fyw i ymwelwyr o bob oed! Helpwch ymwelwyr i drin a thrafod gwrthrychau amgueddfa go iawn. Atebwch gwestiynau a siarad am gasgliadau'r Amgueddfa – o ddeinosoriaid ac anifeiliaid i'r orielau celf godidog. Helpwch ymwelwyr i ddod o hyd i leoliadau neu gasgliadau y gofynnwyd amdanynt yn yr amgueddfa.

**Lleoliad:** Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

**Adran:** Addysg, Cyfranogiad a Dehongli

**Oedran:** 14+

**Dyddiad cau:** 08 Chwefror 2026, 5yp

**Mae'r rôl yn addas i berson:**

- Sy'n mwynhau helpu eraill i ddysgu a darganfod.
- Sydd â diddordeb yng nghasgliadau ac arddangosfeydd yr amgueddfa - neu sy'n barod i ddysgu mwy.
- Sydd eisiau magu hyder wrth siarad â phobl ac ateb cwestiynau.

**Ystyriaethau:**

- Byddwch chi'n gwirfoddoli o gwmpas yr Amgueddfa, naill ai yn yr orielau neu'r Brif Neuadd.
- Gallwch chi ganolbwyntio ar hanes natur, celf neu gyfuniad o'r ddau.

**Oriau ac Ymrwymiad:** Gallwch chi wirfoddoli rhwng 10am-1pm neu 1pm-4pm os oes well gen ti! Mae'r rôl hon ar gael ddydd Mawrth i ddydd Sul, a rhai dyddiau Llun Gŵyl y Banc.

**Sesiwn Hyfforddi :** Bydd y rhai sy'n cofrestru yn cael eu gwahodd i sesiwn hyfforddi orfodol i gwrdd â'r tîm a dysgu mwy am y casgliadau, yr amgueddfa a'r rôl. Bydd hyn rhwng **10:30-13:30 ddydd Sadwrn 28 Chwefror 2026.**

Nodwch y gallai fod angen i ni lunio rhestr fer o geisiadau yn dibynnu ar y nifer a dderbyniwn. Byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad cau gyda rhagor o fanylion.

## Diddordeb?

Cwblhewch y ffurflen gofrestru a'i hanfon at gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio 029 2057 3002.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg, byddwn yn eich ateb yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

Y buddion i'n girfoddolwyr:

- treuliau teithio;
- gostyngiad yn ein siopau, caffis, cyrsiau ac arddangosfeydd;
- geirda ar gais;
- nifer o ddigwyddiadau dathlu a mynediad tu ôl i'r llenni, a
- chyfle i gyfarfod pobl newydd.

